# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)26-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 12 Hydref 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, 4ydd Llawr, Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Rheoli Deddfwriaeth
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes
Llinos Madeley, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC(3)25-10 (Cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 5 Hydref 2010**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)26-10(p1)**

3.1 Rhoddodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wybod i'r Pwyllgor Busnes y byddai'r Llywodraeth yn gwneud cynnig i atal Rheolau Sefydlog ddydd Mawrth er mwyn cyflwyno Cynnig heb ddyddiad trafod ynglyn ag Adroddiad Terfynol Holtham, wedi i'w cynnig gwreiddiol gael ei dynnu'n ôl.

3.2 Rhoddodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wybod i'r Pwyllgor Busnes y byddai'r Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar Gwpan Ryder 2010 ddydd Mercher.

3.3. Cytunodd y Pwyllgor na fydd y cyfnod pleidleisio ddydd Mawrth na dydd Mercher yn digwydd cyn 5.00pm.

3.4. Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 12 a 13 Hydref 2010.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf- BC(3)26-10(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)26-10(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau ddydd Mawrth 19 Hydref 2010.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys cynnig i gytuno ar newidiadau dros dro i Reol Sefydlog 27 mewn perthynas ag amserlen y gyllideb flynyddol ddydd Mercher 20 Hydref 2010.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i newid hyd y ddadl ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ar 3 Tachwedd 2010 o 60 munud i 30 munud.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.10 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

## 4. Pwyllgorau

**(i) Y Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog: Cais i gynnal cyfarfod ffurfiol ar 19 Hydref 2010 – BC(3)26-10(p4)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais gan y Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog i gynnal cyfarfod ffurfiol ar 19 Hydref 2010.

**(ii) Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol: Cais i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol ym Mrwsel ar 6 Rhagfyr 2010 – BC(3)26-10(p5)**

4.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol ym Mrwsel ar 6 Rhagfyr 2010.

## 5. Busnes arall

**(i) Amserlen y Gyllideb flynyddol – newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 27A – BC(3)26-10(p6)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ragor o newidiadau dros dro i Reol Sefydlog 27 i ddiwygio’r amserlen i’r Pwyllgor Cyllid ystyried y gyllideb flynyddol o ganlyniad i amseru’r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

## 6. Adolygiad o’r Rheolau Sefydlog

**(i) Adolygiad o’r Rheolau Sefydlog: Newidiadau arfaethedig mewn perthynas â busnes y Cyfarfod Llawn – BC(3)26-10(p7a)**

**Atodiad A – Tabl o Newidiadau – BC(3)26-10(p7a)**

**Atodiad B – Rheolau Sefydlog Diwygiedig – BC(3)26-10(p7a)**

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur yn cyflwyno cynigion i newid y Rheolau Sefydlog mewn perthynas â busnes y Cyfarfod Llawn. Cytunodd Rheolwyr Busnes i ymgynghori â’u grwpiau ynglyn â’i ystyried ymhellach yng nghyfarfod cyhoeddus cyntaf y Pwyllgor Busnes ar 2 Tachwedd.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**